Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Deuddegfed adroddiad ar gyfer y Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Mai 2024

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Deuddegfed adroddiad ar gyfer y Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Mai 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Drakeford AS ***
Llafur Cymru



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru

* Ni chymerodd ran yn yr ystyriaethau o'r gŵyn

---

## Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 5
2. Ystyried y gŵyn .......... 6
3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor .......... 7
4. Materion o Egwyddor Gyffredinol .......... 10

# 1. Cyflwyniad

**1.** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22.[1] Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, mae'n rhaid i'r Pwyllgor:

> *"mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau…ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi."*[2]

**2.** Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.23 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ("y Weithdrefn")[3] ac mae'n ymwneud â chŵyn a wnaed i'r Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd").

[1] Rheolau Sefydlog
[2] Rheol Sefydlog 22.2(i)
[3] Gweithdrefn y Senedd ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

# 2. Ystyried y gŵyn

**3.** Daeth cwyn i law'r Comisiynydd mewn perthynas ag Aelod yn dweud yn anghywir wrth yr Achwynydd fod sylwadau wedi'u gwneud i'r awdurdod lleol ar ei ran mewn perthynas â mater cynllunio, pan nad oeddent wedi gwneud hynny mewn gwirionedd.

**4.** Nododd yr Achwynydd ei farn nad oedd yr Aelod wedi gweithredu'n onest ac nad oedd yr Aelod wedi sicrhau'r un peth gan ei staff. Honnodd yr Achwynydd fod cysylltiadau preifat yr Aelod ag etholwyr eraill mewn stryd gyfagos (yn enwedig "canfasiwr") yn golygu bod yr Aelod yn ceisio rhoi mantais i gynrychioli un grŵp dros grŵp arall. Gallai'r camau hyn fod wedi arwain at dorri Rheol 2 o'r Cod Ymddygiad (dyletswydd i weithredu'n onest).

**5.** Cyfarfu'r Pwyllgor ar 15 Ebrill 2024 i ystyried adroddiad y Comisiynydd a dod i'w gasgliad mewn perthynas â'r gŵyn hon.

**6.** Mae'r Pwyllgor wedi cynnwys y rhannau perthnasol o adroddiad y Comisiynydd yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau anhysbysrwydd y rhai sy'n ymwneud â'r gŵyn hon yn unol â'r Weithdrefn.

**7.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion y gŵyn a thrafodaethau'r Pwyllgor wrth ddod i benderfyniad.

**8.** Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod dan sylw ac i'r Achwynydd.

# 3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor

**9.** Bu'r Pwyllgor yn trafod p'un a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.2(i).

**10.** Wrth ystyried a dorrwyd rheolau, adolygodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Comisiynydd fel y'u nodir yn ei adroddiad.

**11.** Ni fanteisiodd yr Aelod ar y cyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'r Pwyllgor.

**12.** Roedd canfyddiadau ffeithiol y Comisiynydd fel a ganlyn:

i. Ar 21 Hydref 2021 a 21 Ionawr 2022, cyfarfu'r Aelod â grŵp o drigolion [datblygiad yn yr etholaeth] i glywed eu pryderon ynghylch nifer o faterion cynllunio. Daeth gweithiwr achos gyda'r Aelod.

ii. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, cysylltodd yr Aelod â'r Cyngor Bwrdeistref Sirol ("CBS") ynghylch y materion hyn.

iii. Ar 2 Ionawr 2023, anfonodd yr Achwynydd, a oedd yn byw yn y datblygiad dan sylw, e-bost at swyddfa'r Aelod yn gofyn i'r Aelod gyflwyno sylwadau i CBS mewn perthynas â nifer o faterion cynllunio.

iv. Mae nifer o negeseuon e-bost yn cyrraedd swyddfa'r Aelod bob wythnos. Cânt eu dyrannu gan y staff yn ôl eu pwnc ac ni chânt eu gweld gan yr Aelod fel arfer.

v. Yn unol â'r arfer hwnnw, dyrannwyd e-bost yr Achwynydd i'r gweithiwr achos.

vi. Credai'r gweithiwr achos ar gam fod yr e-bost yn ymwneud â'r materion a godwyd gan grŵp o drigolion ond mewn gwirionedd roedd yn ymwneud â materion cynllunio tra gwahanol yn y datblygiad.

vii. O ganlyniad i'r camddealltwriaeth hwnnw, cydnabu'r gweithiwr achos yr e-bost, a dywedodd wrth yr Achwynydd fod yr Aelod wedi codi'r pryderon gyda'r CBS.

viii. Rhwng 3 Ionawr a 3 Hydref 2023, anfonodd yr Achwynydd 12 e-bost i swyddfa'r Aelod a/neu at y gweithiwr achos yn darparu gwybodaeth bellach neu'n gofyn am ddiweddariad.

ix. Cafodd nifer o'r e-byst hyn eu rhoi mewn cwarantîn gan system TG y Senedd ac ni chafodd rhai eu rhyddhau o gwarantîn na'u darllen.

x. Mae system TG y Senedd yn ystyried holl gynnwys e-bost nid y teitl pwnc yn unig wrth benderfynu a ddylai gael ei roi mewn cwarantîn ai peidio neu fynd i fewnflwch y derbynnydd. Yn unol â hynny, mae'n bosibl i negeseuon gyda'r un teitl pwnc fynd naill ai i'r mewnflwch neu gael eu rhoi mewn cwarantîn.

xi. Nid oedd yr Aelod nac unrhyw un o'u staff yn ymwybodol y gallai e-byst 'dilys' gael eu rhoi mewn cwarantîn. Ar gam, roeddent yn cymryd yn ganiataol bod unrhyw neges a oedd mewn cwarantîn yn sbam ac nad oedd angen ei hagor na'i darllen.

xii. Ar 4 Hydref 2023, anfonodd yr Achwynydd e-bost at yr Aelod a'i gweithiwr achos yn eu hysbysu nad oedd y copi o lythyr at y CBS yr oedd wedi'i anfon mewn ymateb i e-bost cynharach yn ddim i'w wneud â'r mater yr oedd wedi gofyn i'r Aelod ei godi gyda'r Cyngor. Roedd yn ymwneud mewn gwirionedd â materion a oedd yn peri pryder i'r grŵp o drigolion yr oedd yr Aelod wedi cyfarfod â nhw yn 2021 a 2022.

xiii. Roedd yr e-bost hwnnw mewn cwarantîn ond, yn ffodus, ar 5 Hydref gwelodd yr Aelod y rhybudd awtomataidd a'i ryddhau ac fe hysbysodd y gweithiwr achos ar unwaith.

xiv. Ar 14 Hydref 2023 anfonodd yr Aelod e-bost at y CBS yn dweud wrthynt, am y tro cyntaf, am y materion a godwyd gan yr Achwynydd ym mis Ionawr. Anfonodd yr Aelod gopi o'r e-bost at yr Achwynydd.

xv. Nid oes tystiolaeth bod y modd yr ymdriniwyd â gohebiaeth yr Achwynydd, fel yr honnwyd gan yr Achwynydd, wedi'i ddylanwadu gan berthnasoedd personol ag etholwyr neu'r berthynas rhwng un o aelodau o staff yr Aelod a Chadeirydd Pwyllgor Rheoli Datblygu y CBS.

xvi. Nid oedd yr Aelod yn ymwybodol o raddau llawn y diffygion yn y modd yr ymdriniwyd â gohebiaeth yr Achwynydd nes i'r Aelod gyfarfod â'r Comisiynydd ar 16 Ionawr 2024. Ar 22 Ionawr, ysgrifennodd yr Aelod at yr Achwynydd yn egluro ac yn ymddiheuro am y methiannau a oedd wedi digwydd.

**13.** Canfu'r Comisiynydd:

> *"… [he] had no hesitation in concluding that what happened was due to administrative error and not any attempt to favour other residents over the Complainant. Whilst the Caseworker was wrong when she told the Member that representations had been made to []CBC on his behalf, I am satisfied that is what she believed. Neither she, nor the Member, was untruthful in their dealings with the Member. Whilst I understand why the Complainant formed the view that the Member was deliberately favouring the residents of [name of road] and deliberately not responding to his correspondence, he was unable to produce any evidence to support his view."*

**14.** Meddai'r Comisiynydd hefyd:

> *"The Member has accepted that the standard of service provided to the Complainant was far below the required standard and has apologised to him for it. Poor service provided to a constituent cannot amount to a breach of the Code of Conduct or of any other relevant provision."*

Wedi ystyried y wybodaeth a oedd ar gael a'r holl sylwadau, cytunodd y Pwyllgor â chasgliad y Comisiynydd nad oedd y Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri.

# 4. Materion o Egwyddor Gyffredinol

**15.** Nododd y Pwyllgor mai rhan o'r mater yn y gŵyn hon oedd bod rhai o'r negeseuon e-bost a anfonwyd at yr Aelod mewn cwarantîn ac nad oeddent yn cael eu rhyddhau o'r ffolder cwarantîn. Canfu'r Comisiynydd:

> *"The Senedd IT system considers the whole content of an email not just its subject title when deciding whether or not it should be quarantined or go to the addressee's inbox.  Accordingly, it is possible for messages with the same subject title to go either to the inbox or to be quarantined."*

**16.** Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd adolygu negeseuon cwarantîn, o ystyried y potensial i negeseuon e-bost gael eu rhoi mewn cwarantîn a allai fod yn berthnasol i Aelodau o'r Senedd.